## Y Grŵp Trawsbleidiol ar y Ddeddf Teithio Llesol

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 10.30am ar 18 Tachwedd 2020

## Cynhaliwyd y cyfarfod dros Microsoft Teams

**Yn bresennol ac ymddiheuriadau:** Gweler y rhestrau atodedig

**Croeso a chyflwyniadau:** Croesawodd Huw Irranca-Davies MS (cadeirydd) bawb i'r cyfarfod ac esboniodd sut i ddefnyddio nodweddion Teams.

**Teithio llesol a maniffestos 2021 - ystyried y rhestr ddrafft o ofynion polisi allweddol.** Cyflwynodd y cadeirydd yr eitem drwy egluro bod y ddogfen ddrafft, a rannwyd yn flaenorol, wedi'i llunio o'r 161 o awgrymiadau a gafwyd gan ystod eang o sefydliadau. Penodwyd panel bach yn cynnwys pobl o'r pleidiau ac o'r sector teithio llesol er mwyn helpu i fireinio'r holl awgrymiadau hynny i'r naw pwynt yn y ddogfen ddrafft. Roedd yn bwysig nodi na roddwyd blaenoriaeth i'r naw cynnig annibynnol. Gwahoddodd Hugh McKay, aelod o'r panel, i roi trosolwg byr o'r ddogfen ddrafft. Yna galwodd ar bob un o gynrychiolwyr y pedair plaid i siarad.

**Cymru Plaid** Luke Fletcher (Arweinydd polisi ar drafnidiaeth a chynghorydd ym Mhencoed): Dywedodd Luke fod Plaid Cymru 'ar y cyfan' yn gefnogol i'r cynigion yn y ddogfen. Pwysleisiodd bwysigrwydd yr ymrwymiad i Ddeddf Aer Glân. Nid oedd yn gallu ymrwymo ar y pwynt hwn i'r cynnig i deithio llesol gael 10% o'r gyllideb drafnidiaeth. Roedd hefyd yn ansicr o werth cyflwyno comisiynydd arall, gan nodi efallai y gallai Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol gyflawni'r rôl. Mynegodd ei ddymuniad personol i weld llawer mwy o lwybrau teithio llesol yng Nghymru.
**Ceidwadwyr Cymru** Y Cynghorydd Mia Rees (Cynghorydd yng Nghaerdydd): Mynegodd Mia gefnogaeth gref i gynyddu teithio llesol i'r ysgol a chanmolodd Gyngor Caerdydd am eu gwaith yn y maes hwn. Cefnogodd hefyd gynigion i sicrhau bod seilwaith teithio llesol yn cael ei ddarparu mewn datblygiadau newydd. Mae angen caniatáu hyblygrwydd lleol fel y cynllun beiciau trydan Nextbike newydd ym Mro Morgannwg. Rhaid i unrhyw dargedau a osodir fod yn ystyrlon. Cefnogodd gyfyngiadau cyflymder diofyn o 20 mya mewn ardaloedd trefol. O ran y Ddeddf Aer Glân, nododd fod Ceidwadwyr Cymru wedi ymrwymo i ddeddfu o fewn 100 diwrnod o ddechrau'r Senedd newydd. Roeddent hefyd wedi ymrwymo i gronfa beicio cymunedol.
**Llafur Cymru** Jenny Rathbone AS (Aelod o'r Senedd dros Ganol Caerdydd): Mynegodd Jenny ei chefnogaeth bersonol i'r holl gynigion. O ran rhaglen ei phlaid, tynnodd sylw at ymrwymiad y Prif Weinidog i weithredu cyfyngiadau cyflymder diofyn o 20 mya a'r ymrwymiad i gyflwyno Deddf Aer Glân. Credai y byddai angen dadl ynghylch codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd, oherwydd hebddo, byddai'n anodd gweld sut y gellid ariannu'r buddsoddiad angenrheidiol mewn teithio cynaliadwy. Credai, pan fydd pobl yn dewis gwneud y peth anghywir, bod angen iddynt gyfrannu at alluogi eraill i wneud y peth iawn. Mynegodd amheuon ynghylch penodi comisiynydd teithio llesol.
**Democratiaid Rhyddfrydol Cymru** Y Cynghorydd Emma Sandrey (Llefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol ar drafnidiaeth ar Gyngor Caerdydd): Esboniodd Emma ei bod wedi bod yn rhan o'r panel a luniodd y ddogfen ddrafft a'i bod, yn bersonol, yn gefnogol i'r holl gynigion. Roedd ei phlaid yn dal i weithio ar ei rhaglen ar gyfer yr etholiad nesaf ac roedd hi'n siŵr y byddent yn gweld y ddogfen yn ffynhonnell o syniadau defnyddiol. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi cefnogi buddsoddiad cynyddol mewn teithio llesol, cyfyngiadau cyflymder 20 mya a Deddf Aer Glân. Fodd bynnag, pwysleisiodd bwysigrwydd ennill cefnogaeth ehangach i'r cynigion, er mwyn osgoi sefyllfaoedd fel yr un a welir ar hyn o bryd mewn rhannau o Loegr lle bu gwrthwynebiad i seilwaith beiciau newydd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r pedwar cynrychiolydd am eu cyfraniadau. Croesawodd eu sylwadau ar y papur. Esboniodd fod y grŵp yn ceisio bod yn ddyheadol yn ei ofynion polisi ond hefyd yn ymarferol, gan gyflwyno syniadau a allai fod yn dderbyniol i bleidiau gwleidyddol. Yna gwahoddodd gyfraniadau gan aelodau. Cafwyd trafodaeth eang, ble cafwyd yr awgrymiadau canlynol ar gyfer diwygiadau:

- Cydnabod y bydd y dirywiad yn nhreth car yn gwneud dewisiadau amgen fel codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd yn hanfodol.
- Nid yw strydoedd ysgol yn bosibl i bob ysgol, e.e. ar gefnffyrdd.
- Dylai cynlluniau teithio ysgolion gwmpasu pob dull, gydag ysgolion yn llunio'r cynlluniau, a'r awdurdod lleol yn cydgysylltu.
- Pwysigrwydd cael storfa ddiogel mewn preswylfeydd, yn enwedig fflatiau.
- Mae cryfder cylch gorchwyl a'r adnoddau fyddai ar gael i gomisiynydd teithio llesol yn hollbwysig.
- Ailffocysu polisïau diogelwch ar y ffyrdd yng Nghymru i flaenoriaethu cerddwyr a beicwyr sy'n agored i niwed. Mae angen talu mwy o sylw i ymddygiad gyrwyr.
- Mae angen mynd i'r afael â diogelwch ar bob cyffyrdd.
- Mae angen sefydlu'r Ddeddf Aer Glân cyn gynted â phosibl.
- Mae angen ymgyrch newid ymddygiad arnom i annog pobl i ddefnyddio'r seilwaith newydd.

Cytunwyd y dylid cynnwys yr awgrymiadau, ac unrhyw rai pellach a gyflwynir i'r ysgrifennydd o fewn saith niwrnod, mewn dogfen ddiwygiedig, a gofynnir i'r panel ystyried y newidiadau. Ar y sail honno, cafodd y ddogfen gefnogaeth y cyfarfod.

**Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol.** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2019, 4 Mehefin 2020 a 16 Gorffennaf 2020 fel cofnod gwir a chywir.

**Unrhyw fater arall**

Mae'r ymgynghoriad ar **strategaeth drafnidiaeth Cymru** ar agor. Bydd cyfle i'r grŵp trawsbleidiol drafod sut i ymateb iddo yng nghyfarfod mis Rhagfyr.

**Safonau Dylunio ar gyfer Tai Cymdeithasol.** Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn ddiweddar wedi codi'r ffaith gydag adran dai Llywodraeth Cymru bod mannau storio beiciau wedi'u hepgor o'u safonau newydd ar gyfer tai cymdeithasol, er bod llefydd parcio ceir yn dal i ymddangos. Erbyn hyn, cafwyd sicrwydd gan Weinidogion y bydd mannau storio beiciau yn ofyniad yn y ddogfen derfynol. Cyfeiriodd y Cadeirydd at hyn fel enghraifft o bwysigrwydd ymateb i ymgynghoriadau.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf:** 10:30 a.m. ar 9 Rhagfyr.

**Gan nad oedd unrhyw fater pellach, diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am gymryd rhan a daeth â'r cyfarfod i ben.**

**Yn bresennol**

| Enw cyntaf | Cyfenw | Teitl y swydd | Sefydliad |
|---|---|---|---|
| Anne | Adams-King | Prif Weithredwr | Beicio Cymru |
| Ken | Barker | | Cycling UK |
| Joseph | Carter | Pennaeth y Cenhedloedd Datganoledig | British Lung Foundation |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Teresa | Ciano | Rheolwr Partneriaeth | GoSafe, Diogelwch Ffyrdd Cymru |
| Duncan | Dollimore | Pennaeth Eiriolaeth ac Ymgyrchoedd | Cycling UK |
| Sian | Donovan | Cyfarwyddwr | Pedal Power |
| Ryland | Doyle | Swyddog Cyfathrebu ac Ymchwil | Mike Hedges AS |
| Richard | Evans | Cadeirydd | Hyfforddiant Beicio Cymru |
| Luke | Fletcher | Ymchwilydd - Cyllid, Economi a Thrafnidiaeth | Grŵp Senedd Cymru Plaid |
| Catherine | Floyd | Ymgynghorydd locwm ym maes iechyd y cyhoedd | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Matthew | Gilbert | Arweinydd Teithio Llesol | Trafnidiaeth Cymru |
| John | Griffiths | Aelod o'r Senedd | Senedd Cymru |
| Rhiannon | Hardiman | Rheolwr Cymru | Living Streets |
| Huw | Irranca-Davies | Aelod o'r Senedd | Senedd Cymru |
| Keith | Jones | Cyfarwyddwr | Sefydliad y Peirianwyr Sifil Cymru |
| Margaret | Jones | Ysgrifennydd | Cardiff Cycle City |
| Peter | King | Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth | Cyngor Bro Morgannwg |
| John | Mather | | Cycling UK (Gogledd Cymru) |
| Mathew | Norman | Swyddog Polisi a Materion Cyhoeddus, Cymru | British Lung Foundation |
| Gwenda | Owen | Swyddog Ymgysylltu - Cymru | Cycling UK |
| Jenny | Rathbone | Aelod o’r Senedd | Senedd Cymru |
| Mia | Rees | Staff Aelod o’r Senedd | Suzy Davies AS |
| Paulo | Renzel | Swyddog Polisi | Sustrans Cymru |
| Chris | Roberts | Ysgrifennydd | Grŵp Trawsbleidiol ar y Ddeddf Teithio Llesol |
| Emma | Sandrey | Cynghorydd sir | Cyngor Caerdydd |
| Phil | Snaith | Ysgrifennydd | Fforwm Beicio Sir Gaerfyrddin |
| Caro | Wild | Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth | Cyngor Caerdydd |
| Gareth | Williams | Swyddog Seneddol a Chyfathrebu | Alun Davies AS |

**Ymddiheuriadau:**

Rhun ap Iorwerth, Aelod o'r Senedd, Senedd Cymru
Gail Bodley Scott, Arweinydd Adran (Gweledigaeth Trafnidiaeth, Polisi), Cyngor Caerdydd
Christine Boston, Cyfarwyddwr, Sustrans Cymru
Richard Brunstrom, Cycling UK, Gogledd Cymru
Alun Davies, Aelod o'r Senedd, Senedd Cymru
Russell George, Aelod o'r Senedd, Senedd Cymru
Owain Griffiths, Cardiff Cycle City

Rhiannon Hardiman, Pennaeth Cymru, Living Streets
Helen Mary Jones, Aelod o'r Senedd, Senedd Cymru
Mike Jones-Pritchard, Cynghorydd ar Gyngor Caerdydd
Richard Keatinge, Ysgrifennydd, Beicio Bangor
David Melding, Aelod o'r Senedd, Senedd Cymru
David Naylor, Wheelwrights
John Pockett, Cyfarwyddwr, Cydffederasiwn Cludiant Teithwyr Cymru